***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 12

## CYFYNGIADAU AR DRAFODIADAU A RECRIWTIO ETC. GAN GYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Cyfarwyddydau: canlyniadau mynd yn groes iddynt*

5 (1) Mae caffaeliad neu warediad a wneir mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1 yn ddi-rym.

(2) Mae contract (gan gynnwys contract cyflogaeth) neu gytundeb yr ymrwymir iddo mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1 yn anorfodadwy.

(3) Mae grant neu gymorth ariannol arall neu fenthyciad a roddir mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1 yn ad-daladwy.

(4) Os yw cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro yn cynnwys cronfeydd ariannol wrth gefn mewn cyfrifiad o dan adran 32 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1, mae'r cyngor i'w drin at ddibenion adran 30(8) o'r Ddeddf honno fel pe na bai wedi gwneud y cyfrifiadau sy'n ofynnol gan Bennod 3 o Ran 1 o'r Ddeddf honno.